

Edrych yn ôl

“Daeth ofn ar bob enaid; yr oedd rhyfeddodau ac arwyddion lawer yn cael eu gwneud drwy’r apostolion.” (adn. 43)

Beth am ddarlflen Actau 2:42–47 ac yna myfyrio

Yr ydym bellach wedi hen gychwyn ar ganrif newydd ac ar fileniwm newydd ac yr ydym fel Eglwys yn gorfod wynebu her oes newydd. Yr ydym am astudio thema sydd yn angenrheidiol i’r Eglwys wrth wynebu yr her yma. Yn ystod y trigain diwrnod nesaf, byddwn yn edrych ar sut mae diwygio’r Eglwys.

Ni fydd y thema yn edrych yn gymaint ar ddiwygiad yn nhermau yr hyn a ddigwyddodd, dyweder, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, lle adferwyd y Beibl i’w le priodol ac y purwyd yr Eglwys i raddau helaeth iawn. Nid galwad i fynd yn ôl i’r unfed ganrif ar bymtheg neu’r ddeunawfed ganrif sydd yma, ond galwad i fynd yn ôl i’r ganrif gyntaf. Heb amheuaeth, os yw Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist i greu argraff ar y byd fel y gwnaeth yn y ganrif gyntaf, yna mae’n rhaid iddi ddychwelyd at ei gwreiddiau – dychwelyd at y blynyddoedd bendigedig hynny wedi i’r Ysbryd gael ei dywallt ar Ddydd y Pentecost. Yn y dyddiau hynny, yr ydym yn clywed fod y byd wedi ei droi â’i ben i waered gan ddisgyblion oedd wedi eu llenwi â’r Ysbryd Glân. (Actau 17:6).

Tybed a glywsoch am hanes Billy Graham panoedd yn ifanc yn cynnal cyrch efengylaidd yn Los Angeles. Daeth miloedd i gredu yn Iesu Grist, gan gynnwys nifer helaeth o sêr Hollywood. Ychydig wedi’r ymgyrch yma, fe gwynodd rhai o weinidogion Los Angeles fod Billy Graham wedi troi cloch yr Eglwys yn ei ôl ganrif. Pan glywodd ef hyn, meddai: “Mae’n ddrwg gennyf! Roeddwn i’n bwriadu ei droi yn ôl ddwy fil o flynyddoedd.” Os ydym am weld sut y dylid diwygio’r Eglwys, mi fydd yn rhaid i ninnau deithio, nid pum cant o flynyddoedd, ond dwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Josua 24:1–28; Salm. 136:1–26; Luc 9:57–62

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam y bu i Josua edrych yn ôl, a beth oedd canlyniad hyn?
2. Pryd ddylem ni osgoi edrych yn ôl?

Gweddi

O Dduw, cynorthwya dy Eglwys i ddeall fod yna adegau pan mae’n angenrheidiol i edrych yn ôl er mwyn symud ymlaen. Rho i bob un ohonom ni olwg ar yr hyn yr wyt yn dymuno i ni fod. Diwygia ni ar dy ddelw dy hun. Yn enw Iesu Grist. Amen.